

Canllaw Defnyddiol

Croeso i Walk for Plunkett 2022

Diolch am ddewis cerdded rhai milltiroedd i gefnogi cannoedd o gymunedau gwledig ledled y DU sy'n chwilio am gymorth Plunkett ar eu taith i achub siop, tafarn, fferm neu goetir lleol drwy berchnogaeth gymunedol. Rydym wedi llunio'r canllaw defnyddiol hwn i gefnogi eich ymdrechion Walk for Plunkett. Wrth gwrs, os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech gael cymorth ychwanegol, cysylltwch â ni ar **01993 630246** neu e-bostiwch fundraising@plunkett.co.uk



6 – 8 MAI 2022

Dechreuwch eich gwaith codi arian

Rydym yn gofyn i bob cyfranogwr Walk for Plunkett godi o leiaf £100. Ond peidiwch â phoeni, gallwch barhau i gymryd rhan hyd yn oed os nad ydych yn cyrraedd y targed, ond rydym yn eich annog i geisio codi £100 os gallwch chi.

- Crëwch dudalen JustGiving i gasglu eich nawdd
- Bloeddiwch am eich ymdrechion Walk for Plunkett – rhowch wybod i'ch teulu, ffrindiau a'ch cydweithwyr am eich her a'u gwahodd i'ch noddi
- Peidiwch ag anghofio annog rhoddwyr i ychwanegu cymorth rhodd fel y gallwch ychwanegu 25c ychwanegol ar bob punt a roddwyd, gan roi hwb i'ch cyfanswm heb unrhyw gost ychwanegol i chi na'ch noddwr
- Rhowch hwb i'ch ymgyrch codi arian drwy drefnu digwyddiad hwyliog i'ch cefnogwyr gymryd rhan ynddo – efallai noson gwis, gwerthu cacennau neu olchi ceir.

Pam cefnogi Plunkett?

Mae Plunkett yn cefnogi cymunedau gwledig ledled y wlad i reoli eu heriau a'u goresgyn gyda'n gilydd. Wrth helpu grwpiau o wirfoddolwyr i sefydlu a rhedeg busnesau cymunedol fel siopau, tafarndai, caffis, ffermydd a choetiroedd, mae Plunkett nid yn unig yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau lleol hanfodol yn cael eu cynnal, ond hefyd yn cefnogi cyflogaeth leol ac yn mynd i'r afael â materion unigrywdd ac arwahanrwydd gwledig. Drwy ymuno â Walk for Plunkett, byddwch yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol drwy gynyddu nifer y cymunedau y gallwn eu cefnogi.

Cynlluniwch eich llwybr

Mae unrhyw daith gerdded yn well gydag ychydig o de a chacen i roi hwb i'ch egni. Efallai mai eich siop neu dafarn gymunedol agosaf yw'r lle perffaith ar gyfer dechrau, stopio neu orffen.

Beth am edrych ar ein map Busnes Cymunedol (<https://plunkett.co.uk/community-business-map/>) i ddod o hyd i'ch busnes cymunedol lleol i gynllunio eich llwybr Walk for Plunkett o'i amgylch.

Cadwch yn ddiogel

- Gwnewch yn siŵr bod gennych ddigon o fwyd a diod a'ch bod yn gwisgo dillad addas
- Gwiriwch ragolygon y tywydd cyn i chi adael, ewch â dillad gwrth-ddŵr gyda chi a chadwch lygad ar yr awyr
- Gwnewch yn siŵr bod gennych ffôn symudol, wedi'i wefru'n llawn, gyda chi
- Ewch â map gyda chi a sicrhewch eich bod yn gwybod sut i'w ddarllen
- Cadwch at lwybrau cerdded dynodedig bob amser
- Dywedwch wrth rywun pryd rydych chi'n disgwyl bod yn ôl a ble rydych chi'n mynd.

I gael rhagor o wybodaeth am gadw'n ddiogel wrth gerdded, edrychwch ar:

<https://www.ramblers.org.uk/advice/safety.aspx>